# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 28 Medi 2011** |
| Amser: | **Times Not Specified** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
<insert link here>

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Tystion:

Staff y Pwyllgor:

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2. Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru - Tystiolaeth gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (09:30 - 10:30)

2.1 Atebodd y tystion gwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch cyfraniad fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

2.2 Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth bellach am fodel fferyllfeydd cymunedol yr Alban, gan gynnwys ariannu gwasanaethau TG a rennir.

2.3 Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth bellach am y datganiad ar y cyd gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ynghylch cydweithredu.

## 3. Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru - Tystiolaeth gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru (10:30 - 11:30)

3.1 Atebodd y tystion gwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch cyfraniad fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

3.2 Cytunodd y tystion i rannu â'r Pwyllgor ganlyniadau'r arolwg y maent yn ei gynnal i'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir drwy fferyllfeydd cymunedol ar hyn o bryd ac i ba raddau y mae fferyllwyr cymunedol am ddarparu gwasanaethau ychwanegol.

## 4. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn – cytuno ar y cylch gorchwyl (11:30 - 11:40)

4.1 Cytunodd y Pwyllgor y dylid nodi cydbwysedd y ddarpariaeth rhwng cartrefi gofal preifat a chyhoeddus a'r llwybr i ofal preswyl yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylid anfon cylch gorchwyl drafft yr ymchwiliad at randdeiliaid ac y dylid caniatáu pythefnos er mwyn iddynt gyflwyno eu sylwadau arno.